STRATEGAETH GLINIGOL GOGLEDD CYMRU

GWASANAETHAU GOFAL SYLFAENOL A CHYMUNEDOL
ADRODDIAD SBAR – Chwefror 2010

Sefyllfa

Gorchwyl ffrwd waith Gwasanaethau Gofal Cychwynnol a Chymuned oedd ateb y cwestiwn canlynol:

Sut ydyn ni'n cyflwyno'r model gwasanaethau cychwynnol a chymuned yng Ngogledd Cymru?

Yn ystod y cyfarfod diwethaf ar 24 Mehefin 2009 cytunodd y grwpiau arbenigol a rhanddeiliaid roi ystyriaeth bellach i'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

1. Cefnogi'r cysyniad o ardaloedd lleol ac, mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol, contractwyr gofal cychwynnol a sefydliadau sector gwirfoddol, datblygu'r model. Cafodd ei gydnabod y byddai cyflymder y cynnydd a lefel yr integreiddio yn cael ei drafod yn lleol gyda'r partneriaid allweddol hyn.

2. Gweithio efo ffrwd waith Gofal Heb ei Drefnu i ddatblygu'r model o Ganolbwynt Cyfathrebu.

3. Ynghyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, parhau i ddatblygu proffil gwasanaeth. Dylid rhoi ystyriaeth i lefel y wybodaeth a gaiff ei chasglu a'i dadansoddi ar lefel Gogledd Cymru, sirol a/neu ardal leol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried angen na chafodd ei ddiwallu ac annhegwch o ran mynediad at wasanaethau.

4. Parhau i ddatblygu'r model cyllid i wella dealltwriaeth o'r cyllidau cyfredol ar gael i ddarparu gofal cychwynnol a gwasanaethau cymuned.

Cafodd y camau nesaf hyn eu cymeradwyo gan Fwrdd Cysgodi BI PBC yn eu cyfarfod ar 24 Gorffennaf 2009.

Mae BI PBC wedi parhau i weithio gyda'u partneriaid allweddol i symud ymlaen â'r pedair blaenoriaeth a gytunwyd.
Yn yr adroddiad sy'n dilyn rhoddir diweddariad o'r gwaith hwn i'r Grŵp Rhanddeiliaid, gyda manylion y camau nesaf.

Cefndir

Yn ystod cam cyntaf y Prosiect R&D 90 Diwrnod' cafodd y gwaith canlynol ei wneud gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, fel yr oedd yr adeg hynny:

- Adolygiad o waith lleol a wnaethpwyd i ddatblygu Strategaethau Iechyd, Gofal

Cymdeithasol a Lles, Fframweithiau Gwasanaethau Cymunedol a Chynlluniau Gweithredu Cyflyrau Cronig.

- Asesiad o anghenion gofal iechyd bwrdd gwaith gan ddefnyddio deunydd sydd wedi'i gyhoeddi'n barod;
- Adolygiad cyflym o lenyddiaeth mewn perthynas â symud gofal i leoliadau cymunedol;
- Crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd ar y prosiect hyd yma;
- Disgrifiad arfaethedig o fodel gofal y dyfodol.

Rhoddodd y grŵp craidd ystyriaeth i'r sylwadau a dderbyniwyd a chytunodd ar y meysydd ar gyfer gwaith mwy manwl ar sail lefel yr adborth gan y rhanddeiliaid/arbenigwyr a'r hyn a fyddai ym marn y grŵp craidd o'r budd mwyaf i'r prosiect.

Ar ddiwedd Cam 2 fe ddechreuon ni :

- Edrych ar gysyniad o ganolbwynt cyfathrebu, gan ddarparu un pwynt mynediad at wybodaeth am wasanaethau ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gofalwyr a chleifion;
- Mynd i'r afael â'r manylion o ran mwy o eglurder a diffiniad o ardaloedd lleol, gan gynnwys strwythur a mynediad at wasanaethau, a threfniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth.
- Datblygu crynodeb fwy manwl o'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys enghreifftiau penodol o arfer da a mapio ariannol.

Yn ystod Cam 3, ystyriodd y grŵp craidd yr adborth a'r sylwadau ychwanegol a dderbyniodd yn ofalus. Er bod pethau'n symud ymlaen, cafwyd trafodaeth ynghylch meysydd eglurder eraill yn y cyfarfod ar 24 Mehefin er mwyn cwblhau argymhellion a gytunwyd a pharhau gyda'r gwaith.

Ardaloedd Lleol

Cafodd egwyddorion model ardal leol ar gyfer Gogledd Cymru eu hystyried a'u cefnogi gan y rhai oedd yn cymryd rhan. Y casgliad oedd y dylai gofal cychwynnol a gwasanaethau cymuned craidd gael eu trefnu fel a ganlyn:

- **Gwasanaethau mewn practis;** practis Meddygon Teulu (MT), fferyllfeydd, optegwyr a deintyddfeydd.
- **Gwasanaethau wedi'u cydlynu yn 'glwstwr':** Dynodir clystyrau o wasanaethau mewn practis sy'n cefnogi datblygu perthynas waith agosach rhwng practisiau MT ac eto'n dal i gadw eu statws annibynnol. Bydd modd rhannu gwybodaeth a sgiliau uwch rhwng practisiau cyfagos i gefnogi cleifion penodol nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu'n llawn gan eu practis cofrestredig.
- **Gwasanaethau ar gael ar lefel ardal leol.** Caiff ardaloedd lleol eu diffinio fel

timau amlddisgyblaethol sy'n cefnogi ardal ddiffiniedig ac yn cynnwys gwasanaethau cychwynnol, cymuned a chymdeithasol. Bydd pob tîm yn gweithredu o fewn fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd ffurfiol fel y cytunwyd gan yr holl bartneriaid.

- **Gwasanaethau ar gael ar lefel ardal leol ehangach.** Gall y lefel hon fod ar draws dwy ardal neu fwy, ledled y sir neu draws-sirol, yn ôl y galw am wasanaethau penodol ac arbenigeddau.

Cydnabyddir y bydd nifer o'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu mewn amrywiaeth o leoliadau megis cartref y claf, meddygfa MT, fferyllfa cymuned, clinig, cartref gofal neu ysbyty. Cytunir ar ffiniau'r clystyrau a'r ardaloedd lleol mewn partneriaeth rhwng clinigwyr, awdurdodau lleol a phartneriaid sector gwirfoddol a rhagwelir y bydd y model lleol yn :

- cefnogi cyswllt ystyrlon â defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd, gan y byddent yn fwy ymwybodol o natur cymunedau a'u profiad presennol o'r gwasanaeth a ddarperir nac y byddent pe byddai ar lefel ehangach sir gyfan.
- cefnogi cysylltu agosach â chyrff ac asiantaethau lleol, yn cynnwys strwythurau cynrychiolaeth leol fel Cynghorau Tref a Chymuned;

- cefnogi a galluogi mapio a disgrifio'r ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu ar hyn o bryd, a hefyd ei gwneud yn haws i nodi'r bylchau mewn gwasanaethau
- caniatáu i wasanaethau cyhoeddus ddatblygu er mwyn manteisio ar ddatblygiad cymuned ehangach a hefyd er mwyn ei gefnogi a'i alluogi, gan ei bod yn rhoi llais cryfach i aelodau'r gymuned;
- cryfhau rhwydweithiau anffurfiol sy'n bodoli'n barod, rhwng gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, a rhwng darparwyr statudol a sector gwirfoddol.

Canolbwynt Cyfathrebu

Mae gwahanol enghreifftiau yn y DU lle sefydlwyd y cysyniad o ganolbwynt cyfathrebu. Mae'n cynnig y posibilrwydd o sicrhau bod cleifion a gweithwyr proffesiynol yn elwa o'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwahanol wasanaethau yn y gymuned sydd ar gael i gefnogi cleifion yn eu cartrefi neu leoliad yn y gymuned ac osgoi eu hanfon i'r ysbyty yn ddiangen.

Pwysleisiodd y grŵp arbenigwyr a'r grŵp rhanddeiliaid yr angen i sicrhau na fyddai datblygu canolbwynt cyfathrebu yn dyblygu gwasanaethau presennol ac y byddai'n ategu rhan yr ysbyty mewn gofal heb ei drefnu.

Mapio Gwasanaeth

Roedd y rhai oedd yn cymryd rhan yn cydnabod y gwahaniaethau yn y wybodaeth bresennol ynghylch gwasanaethau cymuned.

Cwblhawyd ymarferiad mapio fel man cychwyn i adnabod y prif wasanaethau a dechrau'u cymharu ar draws Gogledd Cymru. Argymhellwyd mwy o waith i gysylltu gwasanaethau presennol ag anghenion iechyd y boblogaeth er mwyn helpu gwasanaethau a chynlluniau ariannol y Bwrdd Iechyd newydd.

Gwybodaeth Ariannol

Fel yn achos mapio gwasanaeth, tynnwyd sylw at y ffaith bod diffyg data ariannol cynhwysfawr yn rhwystro cynllunio effeithiol. Cafodd gwaith modelu a gyflawnwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd ei ystyried gan y grŵp arbenigwyr a'r grŵp rhanddeiliaid a phe byddai'r gwaith yn cael ei ddatblygu,nodwyd y posibilrwydd y byddai'n helpu cynllunio.

Asesiad

Cyhoeddwyd *'Setting the Direction'* yn Nhachwedd 2009 gan Dr Chris Jones ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru a dywed ' Mae creu gwasanaethau iechyd o safon fyd-eang yng Nghymru yn gofyn am drawsnewid gwasanaethau cychwynnol a chymuned'.

Mae'r Rhaglen Gyflenwi Strategol y Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol ar gyfer Cymru yn seiliedig ar yr elfennau allweddol a ganlyn:

- Canolbwynt Cyfathrebu
- Rhwydweithiau Ardaloedd Lleol
- Timau Adnoddau Cymuned
- Cyswllt â'r Ysbyty

Mae'r argymhellion cenedlaethol hyn yn cyd-fynd yn dda â'r argymhellion a wnaethpwyd ar gyfer Gogledd Cymru gan y grŵp arbenigol a'r grŵp rhanddeiliaid.

Yn ogystal cymeradwyodd Bwrdd BIPBC yr egwyddor o weithio'n lleol yn ôl yr amlinelliad yn y Cyfeiriad Strategol BIPBC, '*patrwm ar gyfer y dyfodol'* gan ganolbwyntio ar Grwpiau Rhaglen Glinigol a chyflenwi gwasanaethau cymuned yn lleol.

O ganlyniad sefydlodd BIPBC y Bwrdd Gweithredu Gwasanaethau Gofal Cychwynnol a Chymuned, dan gadeiryddiaeth Dr Lyndon Miles, i sicrhau cynnydd da ym mhob agwedd o'r gwaith.

Y bwriad yw darparu diweddariad bob 6 mis i Fwrdd y BIPBC drwy Fwrdd Gweithredu Gwasanaethau Gofal Cychwynnol a Chymuned.

Ardaloedd Lleol

Mae BIPBC yn dal i weithio â phob un o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru i sicrhau parhad a datblygiad i'r cynnydd a wnaethpwyd hyd yn hyn o ran rhoi strwythurau ardaloedd lleol ar waith gyda phartneriaid, ac mae trafodaethau parhaus gyda phartneriaid yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith.

Cyflwynir disgrifiad manwl o sut y bydd model ardal leol yn gweithio ochr yn ochr â strwythur Grwpiau Rhaglen Glinigol BIPBC i'r Bwrdd yn fuan yn 2010. Y Grŵp Rhaglen Glinigol Gofal Cychwynnol, Cymuned a Meddygaeth Arbenigol fydd â'r dasg o roi sylw penodol i ddatblygu gwasanaethau ardaloedd lleol.

Wrth reswm bydd ardaloedd lleol penodol yn datblygu ar gyflymder gwahanol, yn dibynnu ar gynnydd blaenorol a materion lleol arbennig; bydd y rhain yn cael eu trafod yn lleol efo'r partneriaid allweddol hyn.

Bydd y broses recriwtio ar gyfer Arweinyddion Clinigol MT bob ardal leol yn cychwyn ym Mawrth 2010. Cefnogir bob ardal leol hefyd gan gydlynydd ardal leol.

Canolbwynt Cyfathrebu

Mae cysylltiadau cynllunio a gweithredu ar gyfer y project hwn wedi cael eu gwneud efo'r Bwrdd Strategol Moderneiddio Gofal heb ei Drefnu, sydd wedi derbyn gwybodaeth lawn am y gwaith hwn. Mae pob un partner ar y Bwrdd Strategol Moderneiddio Gofal heb ei Drefnu wedi dangos ei gefnogaeth i archwiliad pellach o'r manteision posibl i Ogledd Cymru o ddatblygu canolbwynt cyfathrebu gyda chefnogaeth achos/cynnig busnes manwl.

Sicrhawyd ymrwymiad pellach partneriaid drwy sefydlu tîm project amlddisgyblaethol i lywio'r project, gyda MT, Gwasanaethau Cymdeithasol, Sector Gwirfoddol, Galw Iechyd Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Defnyddwyr a Chlinigwyr Gofal Eilaidd yn cael eu cynrychioli yn y tîm. Fodd bynnag, nid yw bwrdd y project wedi cyfarfod yn ddiweddar oherwydd bod angen egluro cwmpas y project ymhellach. Mae angen diffiniad clir a manwl o'r cwmpas ar gyfer canolbwynt cyfathrebu a sut y bydd hwn yn cefnogi darparu a rheoli gofal heb ei drefnu yng Ngogledd Cymru ac yn yr ardal leol. Bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod mis Mawrth o'r Bwrdd Gweithredu Gwasanaethau Gofal Cychwynnol a Chymunedol.

Mae arwyddion cynnar bod modd symud ymlaen â'r gwaith gyda'r Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn bartner allweddol fel rhan o'i nod i sefydlu canolfan gyswllt clinigol ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'n gyfle cyffrous i weithio'n agos â'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu canolbwynt cyfathrebu ar gyfer Gogledd Cymru.

Yn ychwanegol mae projectau peilot, sy'n arddel yr egwyddorion o ganolbwynt cyfathrebu, yn mynd ymlaen yn Ynys Môn a'r Rhyl. Bydd yr hyn a ddysgir o'r

cynlluniau peilot hyn yn bwydo i'r prif broject dros y misoedd nesaf, gan gynnwys hefyd y gofynion cyfathrebu ar lefel ardal leol.

Cynhyrchir cynllun datblygu erbyn Mai 2010.

Proffil Gwasanaeth

Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd proffil gwasanaeth yn cael ei gyhoeddi ym Mawrth 2010.

Yr amcan presennol yw egluro a blaenoriaethu'r meysydd/gwasanaethau sydd angen datblygiad a dadansoddiad gwybodaeth ychwanegol, a bydd gwybodaeth am y cynnydd yn cael ei darparu.

Bydd y ddogfen 'fyw' hon yn cefnogi nifer o feysydd gwaith megis adolygu asesiadau o anghenion ar sail sirol, y project modelu ariannol a datblygu canolbwynt cyfathrebu, yn ogystal â darparu gwybodaeth fanwl ar GRhG Gofal Cychwynnol, Cymuned a Meddygaeth Arbenigol. Felly byddwn yn cytuno ar beirianwaith i sicrhau bod y proffil yn gyfredol dros gyfnodau amser cytunedig.

Model Cyllid

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Cychwynnol, Cymuned a Gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi sefydlu trefniadau lleol i ddatblygu'r model ariannol ar gyfer cefnogi cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol, gan fapio gwariant ar gyfer gofal cychwynnol a gwasanaethau cymuned ar lefel sirol, lleol a phractis MT.

Bydd y model ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn yn cyrraedd ei ffurf derfynol ym Mawrth 2010 ac yn cael ei ledaenu ar draws Gogledd Cymru yn ystod 2010/11, a bydd gwariant yn cael ei fapio i gefnogi'r strwythur ardal leol.

Bydd y meysydd gwaith hyn yn ffurfio rhan o gynllun gweithredu GRhG Gofal Cychwynnol, Cymuned a Meddygaeth Arbenigol ar gyfer 2010/11 a thu hwnt.

Asesu Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhawyd asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar y gwaith hwn i sicrhau bod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i faterion cydraddoldeb fel rhan o'r broses '90 diwrnod'.

Argymhellion

Wrth ystyried yr adroddiad diweddaraf, gofynnir i'r rhanddeiliaid:

- Nodi'r cynnydd a wnaethpwyd;
- Sicrhau eglurder ynghylch unrhyw agwedd o'r 4 maes gwaith yr adroddwyd arnynt;

- Nodi, wrth symud meysydd gwaith penodol a phrojectau lleol ymlaen, y bydd angen cysylltu â rhanddeiliaid a'u cynnwys ymhellach, yn lleol ac ar lefel Gogledd Cymru. Bydd hyn yn cael ei bennu a'i drefnu ar lefel project unigol.

Dylid nodi na fydd y Grŵp Rhanddeiliaid '90 Diwrnod' yn dod at ei gilydd eto ar gyfer y ffrwd waith hon ond bydd cyfraniad rhanddeiliaid yn y dyfodol yn unol â'r disgrifiad uchod.